# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU : NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

## GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR DRAFNIDIAETH : CROSS PARTY GROUP ON TRANSPORT

Cofnodion cyfarfod cyntaf y Grŵp, a gynhaliwyd yn Nhŷ Hywel, ar 16 Mai 2018.

Yn bresennol:
Aelodau'r Cynulliad: Russell George, Dai Lloyd, David Rees, Vikki Howells.
Staff Cymorth: Alex Williams (Swyddfa Russell George)
Eraill: John Pockett
Ymddiheuriadau: David Rowlands AC, Llyr Gruffydd AC, Simon Thomas AC, Lee Waters AC

Ethol swyddogion:
Enwebwyd Russell George i gadeirio'r Grŵp. Cynigiwyd: Dai Lloyd, eiliwyd: David Rees. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.
Enwebwyd John Pockett i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth. Cynigiwyd: Dai Lloyd, eiliwyd: David Rees. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Trafodwyd a chytunwyd ar amcanion y Grŵp. 'Pwrpas y Grŵp yw canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth sy'n effeithio ar bobl Cymru'.

Mewn trafodaeth bwrdd crwn ynghylch rhaglen y dyfodol, penderfynwyd ar y canlynol:

- bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod y dydd, yn hytrach na gyda'r nos;
- bydd un cyfarfod yn cael ei gynnal bob tymor;
- bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal cyn toriad yr haf y Cynulliad Cenedlaethol;
- bydd Trafnidiaeth Cymru yn cael gwahoddiad i gyflwyno/annerch y cyfarfod cyntaf.

Rhai pynciau y gellid eu trafod yn y Grŵp oedd Trafnidiaeth Cymru, ymgeisydd llwyddiannus y fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru Gyfan, y Metros - de ddwyrain a gogledd ddwyrain Cymru - trydaneiddio Rhwydwaith y Cymoedd a phrif linell gogledd Cymru, materion yn ymwneud â thrafnidiaeth wledig.

Bydd rhestr o westeion posibl yn cael ei drafftio, gan ddefnyddio'r rhestr a ddefnyddir gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, a chaiff gwahoddiadau i gyfarfodydd eu hanfon fel sy'n briodol. Rhaid i'r rhestr gynnwys Trafnidiaeth Cymru, gweithredwyr trafnidiaeth, grwpiau defnyddwyr ac awdurdodau lleol/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ATCO.

Bydd y cadeirydd a'r ysgrifennydd yn ymgynghori ynghylch y rhestr, ac yn canfasio ac yn ymgynghori ag aelodau'r Grŵp er mwyn cynnwys enwau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45.